Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod	23 Tachwedd, 2021
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol
Awdur yr Adroddiad:	Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Teitl	Cymeradwyo Cais Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU – Etholaeth Gorllewin Clwyd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Diben y gronfa yw buddsoddi mewn isadeiledd a fydd yn gwneud y gwelliant mwyaf i fywyd pob dydd, gan gynnwys hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad i roi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Arweinydd, i gytuno ar gais Codi'r Gwastad i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cefnogi thema'r cais, y prosiectau arfaethedig i'w cynnwys yn y cais a gwerth dangosol pob prosiect.

3.2. Bod y Cabinet yn rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gyfraith, AD a

Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd, i fireinio'r prosiectau a'r costau cysylltiedig yn ôl yr angen a chytuno i Gyngor Sir Ddinbych gyflwyno cais i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Bydd Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol, sydd wedi'u gosod yng nghategori 1, 2 neu 3, gyda chategori 1 yn cynrychioli'r llefydd gyda'r lefelau uchaf o angen. Mae Cyngor Sir Ddinbych yng nghategori 1.

4.2. Bydd nifer y ceisiadau y gall awdurdod lleol (ALl) eu gwneud yn ymwneud â nifer yr Aelodau Seneddol yn eu hardal. Gall ALl gyflwyno un cais ar gyfer pob AS y mae eu hetholaeth gyfan wedi'i lleoli o fewn ffiniau'r sir. Os yw'r etholaeth yn cynnwys mwy nag un ALl, bydd yr ALl hynny'n gweithio gyda'i gilydd, ond fe ddylai un ALl gymryd cyfrifoldeb fel y prif gynigydd. O ran Gorllewin Clwyd, mae CSDd yn datblygu cais ar y cyd gyda CBS Conwy, sy'n gweithredu fel y prif gynigydd/awdurdod.

4.3. Gall pob ardal etholaeth wneud cais am hyd at £20 miliwn o gyllid cyfalaf. Gall y ceisiadau ymwneud â phrosiect penodol neu gall fod yn gais am becyn o hyd at dri prosiect, ond mae'n rhaid iddynt alinio gyda'i gilydd a chynrychioli cyfres cydlynol o ymyraethau.

4.4. Bydd elfen Cyngor Sir Ddinbych o gais Gorllewin Clwyd (cais ar y cyd gyda CBSC) yn oddeutu £10 miliwn. Nid yw'r achosion busnes manwl wedi cael eu datblygu'n llawn eto. **Mae'r costau yn atodiad 1 yn cynnig ffigurau bras ac yn ddarostyngedig i addasiadau.**

4.5. Dylid ymgynghori ag Aelodau Seneddol, ac fe ddylen nhw gefnogi'r ceisiadau. Anogir cyfranogiad gan fudd-ddeiliaid lleol eraill hefyd. Mae pob ALl wedi derbyn £125,000 o gyllid galluogi i'w helpu i ddatblygu eu cynigion.

4.6. Dim ond un cais a ganiateir i'r Gronfa gan bob etholaeth, a bydd yn rhaid eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2024. Mae'n rhaid i bob cais gydymffurfio ag un neu fwy o'r tair thema (i) buddsoddiadau cludiant, (ii) adfywio a buddsoddi yng nghanol y dref a (iii) buddsoddiad diwylliannol. Roedd dyddiad cau y rownd

gyntaf o geisiadau ar 18 Mehefin 2021. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau dyddiad penodol ar gyfer yr ail rownd eto, fodd bynnag, nodwyd pan lansiwyd y Gronfa y byddai'r dyddiad cau ar gyfer yr ail rownd o gwmpas mis Rhagfyr 2021.

4.7. Mae tair etholaeth AS yng Nghyngor Sir Ddinbych:
Dyffryn Clwyd (James Davies AS);
Gorllewin Clwyd (David Jones AS);
De Clwyd (Simon Baynes AS).
Cyflwynwyd y cais ar gyfer De Clwyd yn y rownd gyntaf, ac roedd y cais yn llwyddiannus.

4.8. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais yr ail rownd ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd, a rannir gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)

4.9. Mae'r Arweinydd ac Uwch Swyddogion wedi cyfarfod sawl gwaith gyda'r AS David Jones i drafod buddsoddiadau blaenoriaethol ar draws etholaeth Gorllewin Clwyd.

4.10. Ymgynghorwyd hefyd gydag Aelodau Lleol ar draws pob Grŵp Ardal Aelodau. Mae pob prosiect a gyflwynwyd wedi cael eu hystyried yn erbyn meini prawf y Gronfa Codi'r Gwastad a dyddiadau cau cyflawni. Ymgynghorwyd ag aelodau'n unigol am brosiectau cymwys ac anghymwys. Cynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau pellach i roi gwybod i Aelodau am y prosiectau hynny sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y cais. Ymgysylltwyd â Chyngor Tref Rhuthun, fel yr unig Gyngor Tref yn Sir Ddinbych ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.

4.11. Mae cais Gorllewin Clwyd yn rhan o dri phrosiect cydlynol ar draws ardaloedd Cyngor Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r ddau brosiect sy'n ymwneud â Sir Ddinbych yn targedu buddsoddiad diwylliannol a threftadol. Bydd diogelu llefydd hanesyddol a gwella mannau gwyrdd yn sicrhau nifer o fuddion i gymunedau lleol gan gynnwys gwella lles yn ogystal â datblygu twristiaeth a chryfhau gweithgarwch economaidd ymhellach. Gweler Atodiad 1 am restr lawn o'r prosiectau arfaethedig i'w cynnwys yn y cais.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r prosiectau yn y cais yn ceisio cael effaith weledol mewn ardaloedd lleol, yn arbennig yr ardaloedd sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae adfywio wrth wraidd y cais, a lle bo modd, ymgorfforir teithio llesol, cysylltiad gwell gyda chanol y dref a datblygu mannau gwyrdd i fod yn hygyrch i bawb yn y cais. Bydd y cynnig felly'n cyfrannu at y polisïau corfforaethol yn ogystal â darparu buddion i'r gymuned leol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Darparwyd cyllid galluogi er mwyn galluogi ALl i ddatblygu ceisiadau. Bwriedir i weithgareddau'r prosiect alluogi'r ALl i gyflymu rhai o'i gynlluniau arfaethedig ac o ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol yn gynt na'r disgwyl. Disgwylir cyllid cyfatebol o 10% i gyd-fynd â'r cais.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal. Y prif gasgliadau yw, bod nifer o effeithiau cadarnhaol yn ddisgwyliedig, ond o ystyried bod y datblygiad yn ei ddyddiau cynnar, mae cyfle i ymestyn y rhain a lleihau rhai o'r effeithiau negyddol a amlinellwyd drwy gynllunio trylwyr a datrysiadau arfaethedig gan yr arweinwyr prosiect amrywiol a monitro cyffredinol. Mae'n bwysig nodi y bydd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r prosiectau ddatblygu.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal gyda phob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau ddwywaith, y Cynghorau Tref, Aelodau unigol ac mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r AS, David Jones. Mae Arweinwyr, Prif Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr o CSDd a CBSC wedi cyfarfod i drafod a chytuno ar ddull cydweithio. Mae cyfarfodydd rheolaidd hefyd wedi cael eu cynnal gyda Swyddogion perthnasol o CSDd a CBS Conwy.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn ffynhonnell gyllid bwysig i helpu i adfywio'r ardal. Mae llawer o waith ymgynghori wedi cael ei gwblhau gan y tîm er mwyn penderfynu ar y tri chais sydd ar y rhestr bresennol ar gyfer Gorllewin Clwyd. Gallaf gadarnhau y bydd y gofyniad arian cyfatebol ar gael drwy gydol rhaglen y Gronfa Codi'r Gwastad, fodd bynnag, gobeithir y bydd modd cael mynediad at rywfaint ohono gan ffynonellau allanol. Bydd y cynigion wedi cael eu rhannu â'r GBS erbyn i'r Cabinet gyfarfod a bydd adborth yn cael ei ddarparu bryd hynny.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd proses benderfynu gadarn yn ei lle i gymeradwyo'r cais, yn cynnwys cytundeb uwch swyddogion allweddol a'r Arweinydd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.